

Cylchlythyr | Circular

Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu i Fyfirwyr: Cynlluniau Cyflawni a Dyraniadau

Dyddiad: 06 Gorffennaf 2023
Cyfeirnod: W23/15HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Penaethiaid coleg addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru
Ymateb erbyn: 01 Medi 2023
Cyswllt: Enw: Emma Mock
Ffôn: 029 2085 9742
E-bost: emma.mock@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn disgrifio gofynion ac yn darparu templed Cynllun Cyflawni'r Cynllun Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu ar gyfer gweithgarwch ym mlynnyddoedd academiaidd 2023/24 a 2024/25. Mae hefyd yn manylu ar y dyraniadau ariannol o £2m ar gyfer Blwyddyn Academiaidd 2023/24 ac yn cynnwys yr amserlen ar gyfer cyflwyno cynlluniau cyflawni, taliadau a monitro ar gyfer y ddwy flynedd academiaidd.

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn fformat hygyrch arall, anfonwch neges e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae CCAUC wedi trefnu bod £2m ar gael ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24 i alluogi darparwyr addysg uwch (AU) i barhau i roi cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a / neu o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, gan adeiladu ar y gweithgarwch a gyflawnwyd ym mlwyddyn academiaidd 2022/23 yn erbyn cylchlythyr [W22/21HE](#).
2. Mae'r cylchlythyr hwn yn disgrifio'r gofynion ac yn darparu templed Cynllun Cyflawni'r Cynllun Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu ar gyfer gweithgarwch ym mlynnyddoedd academiaidd 2023/24 a 2024/25. Mae hefyd yn manylu ar y dyraniadau ariannol ar gyfer Blwyddyn Academiaidd 2023/24 ac yn cynnwys yr amserlen ar gyfer cyflwyno cynlluniau cyflawni, taliadau a monitro ar gyfer y ddwy flynedd academiaidd.
3. Bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu a'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) yn cael ei sefydlu yn y flwyddyn academiaidd hon (erbyn mis Ebrill 2024). Er mwyn darparu parhad yn ystod y cyfnod pontio yma, mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno Cynllun Cyflawni dwy flynedd sy'n rhychwantu blynyddoedd academiaidd 2023/24 a 2024/25. Bydd cyflawni ym mlwyddyn academiaidd 2024/25 yn amodol ar gadarnhau cyllidebau'r dyfodol ar y cyfan gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â'r broses o bontio i'r CADY.

Nod y cyllid

4. Mae'r Cynllun Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu'n galluogi darparwyr AU i gefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr AU o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU a / neu o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is. Rhaid i weithgarwch ganolbwyntio ar y lleiafrif o fyfyrwyr y mae arnynt angen cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a gynigir trwy ddarpariaeth graidd ar gyfer y corff myfyrwyr cyfan, o fewn y cwricwlwm a'r tu allan iddo.
5. Dylai'r cymorth gael ei dargedu at fyfyrwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur i helpu i'w harfogi i gyflawni deilliant cadarnhaol pan fyddant yn graddio. Yn ei dro, dylai hyn eu helpu i gyflawni eu potensial, cyrraedd eu nodau a gwireddu eu dyheadau. Yn y tymor hwy, rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o effaith y cyllid hwn trwy leihad yn y gwahaniaeth rhwng deilliannau cyflogaeth yr adroddir arnynt trwy'r data Deilliannau Graddedigion.

Gofynion

6. Mae disgwyliadau a gofynion CCAUC ar gyfer y ddwy flynedd academiaidd nesaf yn ddigyfnewid ers blwyddyn academiaidd 2022/23 fel a nodwyd yng Nghylchlythyr [W22/21HE](#). Caiff y rhain eu nodi isod.
7. Dylai gweithgarwch:

- Fod wedi'i dargedu, gan anelu i ddatblygu cyflogadwyedd myfyrwyr mewn grwpiau ehangu mynediad sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur, a'r rhai sy'n brin o gyfalaf cymdeithasol ac ariannol;
- Bod yn hyblyg ac wedi'i arwain gan fyfyrwyr, wedi'i gynllunio'n arbennig i gyd-fynd ag amgylchiadau a gofynion y myfyriwr unigol;
- Nodi rhwystrau o ran ymgysylltu, fel bod y cymorth wedi'i dargedu'n briodol;
- Meithrin hyder a grymuso'r myfyrwyr a gefnogir i berchnogi eu cyflogadwyedd;
- Adeiladu ar weithgarwch darparwyr i ehangu mynediad at addysg uwch, trwy gefnogi myfyrwyr yn y grwpiau targed i gynyddu i'r eithaf eu cyfleoedd ar gyfer deilliant cyflogaeth cadarnhaol;
- Bod yn rhan o ddull cydgysylltiedig o ddatblygu cyflogadwyedd y myfyrwyr, sy'n ystyriol o'u llesiant ac ystyriaethau eraill;
- Bod wedi'i ddatblygu a chael ei ddarparu mewn cydweithrediad â phartneriaid fel gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, Undebau Myfyrwyr a chyflogwyr;
- Sicrhau ei fod yn ystyriol o safbwyntiau a phrofiadau'r myfyrwyr;
- Sicrhau na chaiff unrhyw fyfyriwr ei eithrio o'r cymorth hwn am eu bod yn profi rhwystrau i gynhwysiant digidol;
- Bod o natur ataliol trwy nodi a chefnogi'r myfyrwyr y mae angen y cymorth cyflogadwyedd ychwanegol hwn arnynt cyn iddynt adael addysg uwch (fodd bynnag, gweler paragraff 13 mewn perthynas ag estyn y cymorth i nifer gyfyngedig o raddedigion).

8. Bydd y cyllid yn cefnogi unigolion sy'n astudio cymhwyster addysg uwch mewn darparwr yng Nghymru sydd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is¹ neu sydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU, sy'n cynnwys, ymhlith eraill:

- Myfyrwyr anabl;
- Myfyrwyr â chyflwr iechyd meddwl;
- Myfyrwyr niwroamrywiol (er enghraifft myfyrwyr ag awtistiaeth, dyslecsia, dyspracsia, anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd (ADHD));
- Myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd;
- Myfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal;
- Myfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd neu ethnig lleiafrifol²;
- Myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys cyfrifoldebau rhiant;
- Myfyrwyr sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches;

¹ Mae Cyngor CCAUC wedi ymrwymo i weithredu yn ysbryd y [Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#).

² Mae CCAUC wedi cadarnhau cyllid hyd at 2024/25 i brifysgolion wneud cynnydd cyflymach a mwy effeithiol ar wella cydraddoldeb hil a mynd i'r afael â gwaith gwrth-hiliaeth mewn addysg uwch; gweler cylchlythyr [W22/25HE: Cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch, dyraniadau 2022/23 a gofynion monitro 2021/22](#). Yn ogystal â chynorthwyo prifysgolion i ennill nod siarter cydraddoldeb hil, bydd y cyllid hwn yn cyfrannu at gyflawni [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) Llywodraeth Cymru.

- Myfyrwyr o ardal amddifadus (h.y. dau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC));
 - Myfyrwyr o ardal lle ceir lefel isel o gyfranogiad mewn AU (h.y. dau gwintel isaf POLAR 4);
 - Myfyrwyr o deuluoedd ar incwm isel;
 - Myfyrwyr sydd yn aelod cyntaf o'r teulu i fynd i brifysgol;
 - Myfyrwyr sy'n nodi eu bod yn LHDTC+;
 - Myfyrwyr o gefndiroedd Sipsiwn neu Deithwyr;
 - Myfyrwyr sy'n cymudo, h.y. myfyrwyr sy'n byw gartref ac yn teithio bob dydd i astudio yn eu darparwr addysg uwch.
9. Mae gofyn i ddarparwyr nodi eu grwpiau â blaenoriaeth yn eu Cynlluniau Cyflawni. Rydym yn disgwyl i'r grwpiau hyn fod yn gyson â'r rhai a nodir yng nghynlluniau ffioedd a mynediad sefydliadau a reoleiddir. Dylai'r holl fyfyrwyr a gefnogir nodi bod ganddynt o leiaf un o'r nodweddion a enwir yng Nghynlluniau Cyflawni darparwyr.
10. Dylid defnyddio'r cyllid i gefnogi myfyrwyr AU o bob oed, sy'n astudio ar sail amser llawn neu ran-amser, a dylai gael ei dargedu at fyfyrwyr sydd bellaf o'r farchnad lafur y mae arnynt angen cymorth cyflogadwyedd ychwanegol.
11. Dylai sefydliadau nodi eu gweithgarwch arfaethedig gan ddefnyddio'r templed ar gyfer Cynllun Cyflawni sydd wedi'i atodi fel **Atodiad A**. Er bod gan sefydliadau hyblygrwydd i adeiladu eu darpariaeth a'u harlwy i ddiwallu anghenion eu myfyrwyr yn y ffordd orau ar sail eu nodweddion demograffig, rydym yn disgwyl y dylai cymorth gynnwys, fel lleiafswm:
- mentora;
 - darpariaeth gyfunol sy'n cynnwys ystod o weithgareddau cyflogadwyedd, gan gynnwys cymorth entrepreneuriaeth;
 - cyfeirio / mynediad â chymorth at ddarpariaeth graidd pob prifysgol o ran cyflogadwyedd, cyfarwyddyd gyrfaoedd, menter a llesiant;
 - darparu cyllid ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â datblygu cyflogadwyedd a / neu brofiad gwaith i sicrhau nad yw cyllid yn rhwystr i gael budd o'r cymorth;
 - profiad gwaith, o wahanol hyd a fformatau.
12. Bydd profiad gwaith yn rhoi cyfle i fyfyrwyr nad oes ganddynt o bosibl y cyfalaf cymdeithasol neu ariannol i gael profiad ymarferol a datblygu cysylltiadau â chyflogwyr. Hefyd, dylai helpu darparwyr addysg uwch i barhau i ddangos i gyflogwyr beth yw manteision bod â gweithlu mwy amrywiol. Bydd yn ofynnol i ni gael amcangyfrif o nifer y myfyrwyr a fydd yn cael profiad gwaith yn y Cynllun Cyflawni, gyda'r niferoedd gwirioneddol yn cael eu nodi yn yr Adroddiadau Monitro a Diwedd Blwyddyn. Rhaid i ddarparwyr sicrhau nad yw profiad gwaith yn dyblygu nac yn disodli darpariaeth bresennol, boed yn ddarpariaeth a gynigir ganddynt hwy eu hunain neu'n ddarpariaeth trwy raglenni eraill. Rhaid i ddarparwyr sicrhau hefyd bod gweithgarwch yn gweithredu yn unol â rheolau Rheoli Cymorthdaliadau.

13. Mae ffocws y cyllid yn dal i fod yn ataliol: dylai arfogi myfyrwyr y mae arnynt angen y cymorth ychwanegol â'r wybodaeth, sgiliau, hyder a chysylltiadau i gael deilliant cadarnhaol ar ôl graddio. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod efallai nad yw rhai myfyrwyr mewn sefyllfa i ymgysylltu â'r cymorth hwn tra ydynt yn astudio. Ar ben hynny, gyda'r Gronfa Cymorth i Raddedigion II yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2023, efallai na fyddant yn gallu cael mynediad at y cymorth cyflogadwyedd estynedig, sydd â ffocws ar raddedigion y mae ei angen arnynt. Dylid cyfeirio graddedigion at y cymorth mwyaf priodol i'w hanghenion, ond byddwn yn parhau â'r hyblygrwydd o ran caniatáu i ddarparwyr gefnogi nifer gyfyngedig o unigolion sydd wedi graddio trwy'r cyllid hwn. Felly gall darparwyr gefnogi eu graddedigion sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur ac y mae angen y cymorth hwn arnynt, ar yr amod:
- nad yw cyfran y graddedigion (h.y. unigolion sydd wedi gadael AU ar adeg y cyswllt) yn uwch na 10% o gyfanswm yr unigolion a gefnogir; ac
 - nad yw'r cymorth a roddir yn ymestyn y tu hwnt i 15 mis o'r dyddiad graddio. Ar ôl yr adeg hon dylid eu cyfeirio at ddarpariaeth arall, fel y bo angen.
14. Byddwn yn monitro niferoedd y graddedigion a gefnogir a ffrâm amser y cymorth yn yr Adroddiadau Monitro a Diwedd Blwyddyn ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24, ac yna byddwn yn asesu effaith y cyfyngiadau hyn.
15. Yn ogystal ag ateb gofynion statudol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, rydym yn disgwyl i ddarparwyr hybu defnydd o'r Gymraeg trwy'r gweithgarwch hwn. Bydd hyn yn cynnwys, lle y bo'n briodol, helpu myfyrwyr a chyflogwyr i ddeall manteision dwyieithrwydd. I'r perwyl hwn, anogir darparwyr i greu cyfleoedd profiad gwaith dwyieithog i ateb ac ysgogi'r galw ymhlith cyflogwyr a myfyrwyr. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr adrodd ar nifer y cyfleoedd a ddarparwyd yn Gymraeg yn yr Adroddiadau Monitro.
16. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr adolygu eu Hasesiadau Effaith mewn perthynas â'r cyllid hwn i sicrhau eu bod yn gyfoes. Bydd arnom eisiau deall sut y mae unrhyw newidiadau i'r Asesiadau Effaith wedi dylanwadu ar y Cynlluniau Cyflawni ar gyfer blynyddoedd academiaidd 2023/24 a 2024/25.
17. Dylid cadw brand GO Wales ym mlwyddyn academiaidd 2023/24 ar gyfer gweithgarwch allanol, h.y. ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr a'r cydweithio traws-sector. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr yn ystod y flwyddyn academiaidd sydd i ddod i ddeall a oes budd wedi deillio o gadw'r brand ar gyfer gweithgarwch allanol. Wedyn byddwn yn penderfynu gyda'r sector a ddylid cadw'r brand a'r wefan.

Blaenoriaethau ar gyfer blynyddoedd academiaidd 2023/24 a 2024/25

18. Yn ychwanegol at y disgwyliadau uchod, wrth i ddarparwyr symud o flwyddyn gychwynnol cyflawni'r gweithgarwch yma, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i

ddarparwyr gryfhau eu dulliau yn y meysydd allweddol canlynol dros y ddwy flynedd academaidd nesaf:

- ystyried llais y myfyriwr, gan gynnwys cydweithio gyda myfyrrwyr i gyd-greu ac adolygu dulliau o gyflawni'r gweithgarwch hwn;
 - adnabod a chefnogi myfyrrwyr breiniol, ni waeth ym mha leoliad y maent yn astudio.
19. Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau gyda darparwyr am fesurau a ffyrdd eraill o asesu effaith y cyllid hwn, a byddwn yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno nifer o astudiaethau achos sy'n gymesur â lefel y cyllid a gafwyd i enghreifftio gweithgarwch ac effaith gyda'r Adroddiad Diwedd Blwyddyn.
20. Rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr barhau i gofnodi pa fyfyrwr a gefnogwyd trwy'r cyllid hwn ar gofnod myfyrwr HESA er mwyn i ni allu tracio, yn y tymor hwy, effaith y cyllid trwy'r data Deilliannau Graddedigion³. Canlyniadau uniongyrchol y cyllid hwn o hyd fydd nifer y myfyrwr a gefnogwyd a nifer y myfyrwr sy'n ystyried bod eu cyflogadwyedd wedi gwella, a nodwyd yn yr Adroddiadau Monitro a Diwedd Blwyddyn. Gall darparwyr nodi canlyniadau ychwanegol yn eu Cynlluniau Cyflawni.
21. Mae'n un o ofynion allweddol y cyllid hwn bod darparwyr yn parhau i adeiladu ar y gwaith cydweithredol traws-sector adeiladol a gafodd ei feithrin trwy gydol y rhaglenni GO Wales a gyllidwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a thrwy waith AGCAS Cymru. Dylai cydweithio o'r fath ddarparu darvoudion maint a manteision i fyfyrwr, cyflogwr a darparwr. Ar ben hynny, pe bai darparwr yn dymuno parhau i gyfrannu cyfran o'u dyraniad i gronfa gweithgarwch cydweithredol, mae'n ofynnol bod darparwr yn ein hysbysu ar y cyd ynghylch ei ddefnydd bwriadedig, gan gynnwys sut y mae'n cyd-fynd â'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau hyn. Hefyd, rydym yn disgwyl gweld bod manteision y cydweithio'n amlwg dros flynyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25.

Myfyrwr AU mewn AB

22. Yn unol â'n safle rheoleiddiol, prifysgolion sy'n gyfrifol am wneud y cymorth hwn yn hygyrch i'w myfyrwr breiniol. Fel a nodwyd ym mharagraff 18, rydym yn disgwyl gweld trefniadau ar gyfer y myfyrwr hyn yn cael eu cryfhau yn y Cynlluniau Cyflawni ar gyfer blynyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25. Dylai hyn arwain at gynnydd yn nifer y myfyrwr breiniol a gefnogir, fel a nodir yn yr Adroddiadau Monitro a'r Adroddiadau Diwedd Blwyddyn.
23. Ar gyfer blynyddoedd academaidd 2023/24 a 2024/25, byddwn yn parhau â'r dull o gyllido'r myfyrwr AU mewn AB a gyllidir yn uniongyrchol a gyflwynwyd gennym ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Felly byddwn yn darparu cyllid yn unol â'r fethodoleg ym mharagraffau 27-32 i Grŵp Llandrillo Menai, a byddwn yn darparu swm penodedig o gyllid i Goleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Gŵyr Abertawe

³ I ddynodi bod myfyriwr yn cael ei gefnogi fel rhan o gyllid Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu CCAUC, rhaid rhoi 021 yn y maes dynodwr menter myfyrwr [STUNITID](#) ar gofnod myfyrwr HESA. Dylid defnyddio'r cod yma ar gyfer myfyrwr a gefnogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cyfeirio.

i'w galluogi i barhau i estyn y gweithgarwch a gyflawnir dan Fiwros Cyflogaeth a Menter Llywodraeth Cymru i'w myfyrwyr AU a gyllidir yn uniongyrchol.

Dyraniadau cyllid

24. £2m yw cyfanswm y gyllideb sydd ar gael i gefnogi'r gweithgarwch hwn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024. Rydym yn disgwyl y bydd y gyllideb graidd ar gyfer y gweithgarwch hwn yn aros ar yr un lefel ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25, yn amodol ar gadarnhau cyllidebau ar y cyfan yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru a'r broses o bontio i'r CADY.
25. Caiff dyraniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 eu cyflwyno yn nhabl 1. Bydd dyraniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 yn cael eu cadarnhau yn 2024. Bydd dyraniadau darparwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25 yn cael eu modelu gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael gan HESA.
26. Caiff y dyraniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 eu cadarnhau yn nhabl 1:

Tabl 1: Dyraniadau a gadarnhawyd

Darparwr	Dyraniad (£)
Prifysgol Aberystwyth	144,405
Prifysgol Bangor	153,608
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	235,244
Prifysgol Caerdydd	330,000
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	175,590
Prifysgol Abertawe	330,000
Prifysgol De Cymru	330,000
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	166,693
Prifysgol Wrecsam	100,000
Grŵp Llandrillo Menai	25,000
Coleg Castell-nedd Port Talbot	5,000
Coleg Gŵyr Abertawe	5,000
Cyfanswm	2,000,000

27. Cyfrifir dyraniadau ar sail cyfrif pennau o gyfran pob darparwr o fyfyrwyr ehangu mynediad y gellir eu cyllido, sy'n hanu o bob gwlad, sy'n astudio ar bob lefel, a hynny ar ddwyter o >50%, gan gynnwys myfyrwyr breiniol, ar y sail bod myfyrwyr sy'n astudio ar ddwyter llai na hyn mewn na thebyg mewn cyflogaeth.
28. Caiff myfyrwyr ehangu mynediad eu diffinio fel myfyrwyr:
 - ag anabledd; neu
 - o gefndir Du, Asiaidd neu grŵp ethnig lleiafrifol – sy'n hanu o'r DU yn unig; neu
 - sy'n gadael gofal; neu

- o ardal amddifadus (cwintelau 1 neu 2 ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019 ar gyfer yr holl israddedigion); neu
 - o ardal â chyfranogiad isel mewn AU – cwintelau 1 neu 2 POLAR4 (cyfranogiad ardaloedd lleol) ar gyfer israddedigion amser llawn 20 oed neu iau ar ddechrau eu cwrs; cwintelau 1 neu 2 ADULTHE (cyfran yr oedolion o oedran gweithio â chymwysterau ar lefel AU fel a fesurwyd gan gyfrifiad 2011) ar gyfer israddedigion amser llawn 21 oed neu hŷn ar ddechrau eu cwrs a'r holl israddedigion rhan-amser); neu
 - â rhieni heb unrhyw gymwysterau AU – israddedigion sy'n hanu o'r DU yn unig.
29. Ar gyfer prifysgolion, mae'r model cyllido'n ymgorffori terfyn isaf o £100,000 i sicrhau isafswm capasiti ar gyfer cyflawni gweithgarwch. Mae hefyd yn cynnwys terfyn uchaf o £330,000, a bennwyd yn seiliedig ar ein profiad o'r rhaglen GO Wales a gyllidwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop o uchafswm gwerth tebygol y gweithgarwch y bydd darparwr unigol yn gallu ei gefnogi. Hefyd, mae'n adlewyrchu y bydd y dyraniad llawn o £2m yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gweithgarwch hwn ym mlwyddyn academaidd 2023/24 (ym mlwyddyn academaidd 2022/23 roedd cyfran o'r gyllideb yn ofynnol fel cyllid cyfatebol gan CCAUC ar gyfer y rhaglen a gyllidwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop).
30. Ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai, rydym wedi cynnwys terfyn isaf o £25,000, sy'n ystyried maint eu cohort AU a gyllidir yn uniongyrchol yn ogystal â darparu isafswm capasiti ar gyfer staffio i gyflawni gweithgarwch. O ystyried y niferoedd bach o fyfyrwyr AU a gyllidir yn uniongyrchol yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Gŵyr Abertawe, rydym wedi gwneud dyraniad uniongyrchol ar y sail a amlinellir ym mharagraff 23.
31. Cyfrifwyd y dyraniad ar sail pro rata ac yna fe gymhwyswyd y terfynau isaf ac uchaf. Roedd yr arian a ddidynnwyd o ddyraniad ddarparwyr uwchlaw'r terfyn uchaf ar gyfer y cyllid yn fwy na'r arian ychwanegol a oedd yn ofynnol i ddod â darparwyr i fyny at y terfyn isaf ar gyfer y cyllid. Er mwyn cynnal cyfanswm cyllid o £2 filiwn, fe ailddosbarthwyd y gwarged yn y gyllideb ar draws darparwyr rhwng y terfyn isaf a'r terfyn uchaf ar gyfer y cyllid ar sail pro rata.
32. Mae data HESA wedi'i ddilysu ar gyfer 2021/22 wedi cael ei ddefnyddio i gyfrifo'r dyraniadau.
33. Rhaid i ddarparwyr ddefnyddio'r cyllid i gefnogi'r myfyrwyr y mae arnynt fwyaf angen yr ymyriad, fel a ddisgrifiwyd yn eu Cynlluniau Cyflawni, ac nid ydynt wedi'u rhwymo gan y paramedrau a ddefnyddiwyd ar gyfer y fethodoleg gyllido.

Trefniadau monitro a thalu

34. Yn dilyn cymeradwyo Cynllun Cyflawni darparwr, bydd CCAUC yn anfon cadarnhad o'r cyllid a hwnnw'n nodi'r cyllid a ddyrannwyd a'r amodau cysylltiedig. Bydd taliadau'n cael eu gwneud fel a nodir yn y cadarnhad o'r cyllid ac fel a

amlinellir yn yr amserlen ym mharagraff 40, gydag unrhyw newid i'r proffil taliadau'n amodol ar gytundeb gan CCAUC.

35. Bydd y taliad cyntaf yn cynnwys 50% o gyfanswm y dyraniad a bydd yn cael ei wneud i ddarparwyr yn dilyn cymeradwyo'u Cynllun Cyflawni.
36. Bydd yn ofynnol cyflwyno Adroddiad Monitro ym mis Ionawr 2024 gyda gwybodaeth am weithgarwch hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2023, gan nodi nifer y myfyrwyr (gan gynnwys myfyrwyr breiniol) a graddedigion a gefnogwyd, yn ogystal â'u nodweddion. Hefyd, bydd arnom angen gwybodaeth am nifer y rhai a gefnogwyd sy'n ystyried bod eu cyflogadwyedd wedi gwella ar yr adeg honno, a'r nifer sydd wedi cael profiad gwaith. Darparwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl wybodaeth, gan gynnwys y data gofynnol, yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad fel bod sail gadarn i asesu effaith y cyllid a deilliannau'r myfyrwyr. Bydd templed yr Adroddiad Monitro'n cael ei ddarparu gan CCAUC.
37. Bydd y 50% olaf o'r dyraniad yn cael ei dalu yn dilyn cymeradwyo'r Adroddiad Monitro, ar yr amod bod darparwr wedi neilltuo o leiaf 75% o'r taliad cyntaf.
38. Bydd yn ofynnol cyflwyno Adroddiad Diwedd Blwyddyn ym mis Awst 2024 a hwnnw'n nodi sut y mae myfyrwyr wedi cael eu cefnogi, nifer y myfyrwyr (a graddedigion) a gefnogwyd ac effaith y cyllid ar yr adeg honno. Bydd nifer o astudiaethau achos yn ofynnol, yn gymesur â maint y gweithgarwch a gyllidwyd. Mae angen i'r astudiaethau achos fod yn addas i'w cyhoeddi. Byddwn yn darparu templedi ar gyfer yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn a'r Astudiaethau Achos.
39. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gadarnhau gwariant gwirioneddol yn y cyfnod rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024 yn yr Adroddiad Diwedd Blwyddyn. Rydym yn cadw'r hawl i adfer unrhyw ddyraniad cyllidebol nad yw wedi cael ei wario (h.y. ei dalu) erbyn 31 Gorffennaf 2024. Ni fydd hyn yn effeithio ar ddyraniad darparwr ar gyfer blwyddyn academiaidd 2024/25.

Amserlen

40. Caiff yr amserlen ar gyfer y cynllun ac adroddiadau gofynnol a thaliadau ei chyflwyno isod.

Disgrifiad	Dyddiad
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Cyflawni	1 Medi 2023
Talu 50% o gyfanswm y dyraniad	Yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Adroddiad Monitro	19 Ionawr 2024
Talu'r 50% sy'n weddill o gyfanswm y dyraniad, ar yr amod bod o leiaf 75% o'r dyraniad cyntaf wedi cael ei neilltuo	Yn dilyn cymeradwyo'r Adroddiad Monitro
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Adroddiad Diwedd Blwyddyn ac Astudiaethau Achos 2023/24	23 Awst 2024

Rhagor o wybodaeth / ymatebion i

41. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Mock (029 2085 9742; emma.mock@hefcw.ac.uk). Dylai darparwyr gyflwyno'u Cynlluniau Cyflawni ar ffurf Word i Rachel O'Gorman, rachel.ogorman@hefcw.ac.uk, erbyn **1 Medi 2023**. Dylai prifysgolion a Grŵp Llandrillo Menai ddefnyddio'r templed yn Atodiad A; dylai Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Gŵyr Abertawe ddefnyddio'r templed yn Atodiad B, gan gydnabod y dull gwahanol a lefel y cyllid a ddarperir.

Asesu effaith ein polisiau

42. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio i asesu'r effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Rydym hefyd wedi ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn y sector AU yng Nghymru a effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.